

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

National Slimming and Cosmetic
Clinics, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror
2018

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	15
4.	Beth nesaf?	17
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	18
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	20

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle roddir rhybudd o National Slimming and Cosmetic Clinics, Caerdydd ar 27 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd croesawgar a phrofiad cadarnhaol i'r cleifion.

Canfuom fod angen i'r gwasanaeth wella'r trefniadau ar gyfer storio rhai cofnodion cleifion.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol o ran y driniaeth a oedd yn cael ei derbyn
- Roedd cofnodion cleifion yn cefnogi'r driniaeth a ddarparwyd
- Roedd tystiolaeth bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n ddiogel
- Roedd gan y gwasanaeth broses archwilio dda ar waith er mwyn nodi meysydd i'w gwella.
- Roedd proses gadarn ar waith ar gyfer rhannu dysgu o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd ar draws y sefydliad.
- Roedd cofnodion hyfforddiant staff yn fanwl.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dogfennau i ddangos tystiolaeth o'r wybodaeth a ddarparwyd i gleifion.
- Rhai trefniadau ynghylch gwaredu a storio meddyginiaeth.
- Trefniadau ar gyfer storio rhai cofnodion cleifion yn ddiogel.
- Mae angen diweddarau'r polisi cwynion.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae National Slimming and Cosmetic Clinic Caerdydd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau cyngor a thriniaeth annibynnol ar reoli pwysau i gleifion sy'n 18 oed neu'n hŷn yn 39 Heol Siarl, Caerdydd CF10 2GB.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys dau feddyg, rheolwr practis a dau aelod o staff y dderbynfa.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Rhoddodd y cleifion sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a gynigir iddynt gan yr holl staff.

Gwnaethom argymhell y dylid gwella'r dogfennau i ddangos pa wybodaeth a roddwyd i gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r amgylchedd yn lân iawn; ac mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn fodlon rhoi cymorth"

"Staff cyfeillgar, cefnogol a gwybodus iawn"

"Mae'r staff yn gwneud i mi deimlo bod croeso i mi a'm bod yn gyfforddus bob tro. Mae'r wybodaeth am driniaeth a cholli pwysau'n ganmoladwy. Rwy'n hynod falch gyda'm canlyniadau. Ni allaf ddiolch ddigon iddynt. Rwyf wedi argymhell y gwasanaeth i'm holl ffrindiau. Diolch."

"Staff cyfeillgar iawn sydd bob amser yn barod i roi cyngor a chymorth. Mae'r meddyg yn drwyadl bob tro rwy'n ymweld."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Canfuom fod y gwasanaeth yn arddangos gwybodaeth am reoli dognau a bwyta'n iach i helpu i hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd eu hunain. Dywedwyd wrthym yn ystod ymgynghoriadau, fod meddygon yn trafod dewisiadau ffyrdd iach o fyw ar y cyd â thriniaeth ragnodedig.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithredu ar sail meini prawf llym i gleifion cyn i'r meddygon ragnodi unrhyw driniaeth. Roedd hyn yn sicrhau mai cleifion priodol yn unig oedd yn derbyn triniaeth.

Urddas a pharch

Roedd apwyntiadau cleifion gyda meddygon yn cael eu cynnal mewn ystafell driniaeth i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, gan olygu bod urddas a pharch yn cael eu cynnal. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig ac yn sensitif wrth gynnal gofal a thriniaeth.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn derbyn arweiniad ar gollu pwysau a dyddiadau diet yn eu hapwyntiad cyntaf, gan roi gwybodaeth i gefnogi eu rhaglen colli pwysau. Gwelsom yng nghofnodion rhai cleifion fod hyn wedi'i roi, fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gofnodi'n gyson. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth hwn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i gleifion yn cael ei nodi mewn cofnodion unigol. Gwelsom yng nghofnodion y cleifion fod cydysniad y claf wedi'i sicrhau cyn unrhyw driniaeth.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y gwahanol opsiynau triniaeth a oedd ar gael, costau'r gwasanaethau a'r gwasanaethau ôl-ofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion y cleifion yn nodi'r wybodaeth a ddarperir i gleifion yn llawn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd posteri a thafenni gwybodaeth ar gael ynghylch y driniaeth a gynigir yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth hon ar gael yn Saesneg yn unig.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf, acer bod y ffurflenni'n brin, gwelwyd bod yr wybodaeth yn glir ac yn fwy na digonol ar gyfer y broses ymgynghori. Gwelsom fod hanes meddygol, meddyginiaeth ragnodedig, pwysau gwaed a phwysau i gyd yn cael eu cofnodi'n gyson.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gleifion allu darparu adborth ar y driniaeth a ddarparwyd iddynt. Roedd hyn yn cynnwys arolwg boddhad cleifion a thrwy wefan y gwasanaeth. Gwelsom fod yr wybodaeth a gasglwyd yn cael ei dadansoddi a'i bod ar gael i gleifion ei gweld petaent yn dymuno.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn cynnig triniaethau i ddiwallu anghenion unigol cleifion.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod; a chanfuom fod systemau priodol ar waith i roi meddyginiaeth yn gywir. Gwnaethom argymhell y gallai rhai gwelliannau gael eu gwneud ynghylch gwaredu unrhyw feddyginiaeth y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio a chysondeb o ran gwiriadau tymheredd.

Roedd y staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar gyfer y gwasanaeth roeddent yn ei ddarparu.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith er diogelwch a lles y staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth a'r bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Canfuom fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Oherwydd natur y clinig, nid oedd angen llawer o ymyrraeth o ran rheoli ac atal heintiau er y canfuom fod gel dwylo ar gael. Roedd sinc golchi dwylo hefyd ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth.

Canfuom fod y gwasanaeth i'w weld yn lân ac yn daclus, a gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur naill ai gytuno neu gytuno'n gryf fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y broses ar gyfer rheoli meddyginiaethau ac roeddem yn fodlon ei bod yn ddiogel. Roedd y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod a gwelsom fod cofnodion manwl o ran rhagodi ac archwilio. Canfuom fod meddyginiaethau y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio, ar y cyfan, yn cael eu gwaredu'n briodol drwy becyn 'doom'.¹ Dywedodd y gwasanaeth wrthym ei fod wedi mynd â pheth meddyginiaeth y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio i'r fferyllfa leol yn ddiweddar er mwyn ei gwaredu, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos bod y fferyllfa wedi'i derbyn. Gwnaethom roi cyngor i'r rheolwr cofrestredig i sicrhau ei fod yn cael cofnod neu dderbynneg o'r fferyllfa os ydynt yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Er i ni weld bod y gwasanaeth yn cynnal cofnodion o'r tymheredd yn y cwpwrdd lle'r oedd y feddyginiaeth yn cael ei chadw, gwnaethom argymhell y dylai'r broses gael ei chryfhau i sicrhau bod y tymheredd yn cael ei gofnodi mewn ffordd gyson. Gwnaethom argymhell y dylai'r tymheredd gael ei nodi ar yr un amser bob dydd, a bod cofnodion yn cael eu llofnodi a'u dyddio i ddangos pryd roedd hyn wedi digwydd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw i ddangos tystiolaeth bod meddyginiaeth y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio wedi cael ei gwaredu gyda sefydliadau allanol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y broses ar gyfer cofnodi'r tymheredd yn y cwpwrdd meddyginiaeth yn gyson.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Nid oedd y gwasanaeth wedi adrodd am unrhyw faterion diogelu. Roedd polisi a gweithdrefn diogelu oedolion priodol ar waith i gefnogi'r staff os oedd angen. Gwnaethom ystyried y broses recriwtio sydd ar waith i staff newydd, a

¹Cynwysyddion ar gyfer gwaredu cyffuriau a reolir mewn modd diogel.

chawsom wybod y byddai gwiriadau priodol yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn gan y rheoliadau, cyn i unigolyn ddechrau.

Gwnaethom ystyried nifer o ffeiliau a chofnodion hyfforddiant staff, a gweld bod y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y gwasanaeth ddefnydd o gyfarpar i fesur pwysau gwaed, pwysau a thaldra cleifion. Gwelsom fod gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar wedi'i galibradu'n gywir i helpu i ddangos eu bod yn effeithiol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf, a gweld bod ganddynt y lefel ofynnol o fanylion i gefnogi'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Mae hyn yn cynnwys mesuriadau sylfaenol megis pwysau, taldra, pwysau gwaed a BMI², hanes meddygol cleifion a meddyginiaeth ragnodedig. Roedd cofnodion parhaus yn cael eu cynnal i ddangos faint o bwysau yr oedd claf wedi'i golli, i helpu i ddangos canlyniadau'r driniaeth.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd i helpu i nodi meysydd i wella'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys arolygon boddhad cleifion, adolygiadau o gwynion cleifion, archwiliadau meddyginiaeth ac adolygiadau hyfforddiant staff.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion presennol cleifion yn cael eu cynnal mewn fformat papur, ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd â chlo i atal mynediad heb awdurdod. Canfuwyd gennym, fodd bynnag, fod angen i'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion y cleifion hynny nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn cael eu storio'n ddiogel. Er bod y cofnodion o olwg y cyhoedd, nid

²Mynegai Màs y Corff - Mesuriad sy'n seiliedig ar daldra a phwysau unigolyn i helpu i benderfynu a yw o dan bwysau, yn bwysau iach, dros bwysau neu'n ordew.

oeddent wedi'u cloi. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

Canfuwyd gennym hefyd fod gan rai cardiau cofnodion cleifion daflenni parhau, ac nid oedd y rhain bob amser wedi'u labelu'n briodol â gwybodaeth am y claf. Golyga hyn fod potensial i gardiau cofnodion heb eu staplo fynd ar goll. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel i atal unrhyw fynediad heb awdurdod a bod yr holl gofnodion yn cynnwys gwybodaeth i adnabod y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth glir ar waith. Roedd y mwyafrif o'r staff wedi cael eu cyflogi am gyfnodau hir o amser ac roeddent yn llwyr ymwybodol o'r hyn oedd yn ofynnol ganddynt ac i bwy i adrodd am gyngor a chefnogaeth.

Roedd cofnodion hyfforddiant staff yn fanwl ac yn drwyadl ac roedd proses dda ar waith ar gyfer sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Roedd gan y gwasanaeth broses gadarn ar waith ar gyfer sicrhau bod y staff yn cael gwybod am newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuom fod y tîm yn y National Slimming and Cosmetics Clinic, Caerdydd, yn dîm sefydledig a'u bod yn dangos llinellau clir o gyfrifoldeb. Roedd y staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n glir. Canfuom fod y gefnogaeth a gynigiwyd i'r staff gan yr uwch-reolwyr o'r sefydliad ehangach yn gadarnhaol.

Gwnaethom adolygu Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion y gwasanaeth. Canfuom fod y Datganiad o Ddiben y cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fodd bynnag, roedd angen i'r dyddiad cyhoeddi gael ei adolygu oherwydd ei fod yn dangos ei fod wedi'i gyhoeddi ar ddyddiad yn y dyfodol. Mae angen diweddarau'r Canllaw i Gleifion i gynnwys crynodeb o farn y cleifion, yn unol â'r rheoliadau. Cafodd y Canllaw i Gleifion ei ddangos yn y man aros i gleifion er mwyn i gleifion gael mynediad iddo, gan olygu bod gan gleifion fynediad i wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir.

Gwelsom fod amrywiaeth cynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, gan ddarparu gwybodaeth fanwl i'r staff a'r cleifion. Gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i helpu i sicrhau bod gan y staff a'r cleifion fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r Canllaw i Gleifion i gynnwys crynodeb o adborth cleifion yn unol â'r rheoliadau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith, sy'n amlinellu'r broses i gleifion os ydynt yn dymuno lleisio pryder. Roedd yr wybodaeth wedi'i harddangos yn y man aros i gleifion. Canfuom fod angen diweddarau'r weithdrefn gwyno i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC. Roedd gan y gwasanaeth broses gadarn ar gyfer mynd i'r afael â chwynion, ac roedd yn gallu dangos tystiolaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan gwynion a dderbyniwyd ar draws lleoliadau niferus.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau'r polisi cwynion i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedodd y staff eu bod yn derbyn staff cyflenwi o leoliad arall i gynorthwyo pan fo angen. Roedd hyn fel arfer i gyflenwi yn ystod cyfnodau hir o absenoldeb a gynlluniwyd. Gwelsom fod gan y staff gofnodion hyfforddiant manwl ac yn derbyn hyfforddiant priodol yn y meysydd maent yn gweithio ynddynt.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd ffeiliau staff yn cael eu cynnal yn ganolog gan adran adnoddau dynol y cwmni. Ymdrinnir â recriwtio hefyd yn ganolog i helpu i sicrhau bod yr holl ddogfennau priodol wedi'u derbyn cyn penodiadau. Canfuom fod gan y gwasanaeth system addas ar waith i sicrhau bod gwiriadau cofrestru proffesiynol a datgelu a gwahardd wedi'u diweddarau a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn modd amserol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: National Slimming and Cosmetic Clinics, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion cleifion yn nodi'r wybodaeth a ddarperir i gleifion yn llawn.	Rheoliad 23 (1) (a)(i) Safon 9. Gwybodaeth a chydysyniad cleifion	Mae'r Cerdyn Rhagnodi Cleifion wedi'i ddiwygio i gynnwys taflen PIL - yn aros i gael ei hargraffu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, bydd yr holl PIL a roddir i gleifion yn cael eu nodi ar y Cerdyn Rhagnodi Cleifion â llaw. Bydd taflenni rhydd sy'n ffurfio rhan o'r Cerdyn Rhagnodi Cleifion bellach yn cynnwys enw a dyddiad geni'r claf.	Linda Godwin	Ar unwaith
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw i nodi tystiolaeth bod meddyginiaeth sydd y tu hwnt i'r dyddiad defnyddio wedi cael ei gwaredu gyda sefydliadau allanol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y broses ar gyfer cofnodi'r tymheredd yn y cwpwrdd meddyginiaeth yn gyson.</p>	<p>Rheoliad 9 (1)(m)</p> <p>Rheoliad 15 (5)(a)</p> <p>Safon 15.</p> <p>Rheoli Meddyginiaeth</p>	<p>Mae pecyn 'doom' ar y safle ac mae'r holl feddyginiaethau sydd wedi'u gwaredu yn cael eu llofnodi gan feddyg rhagnodi. Mae trwydded T28 hefyd ar waith.</p> <p>Mae cofnod tymheredd newydd ar waith - caiff meddyginiaethau eu cofnodi ddwywaith y dydd (dechrau a diwedd sesiwn)</p>	<p>Linda Godwin</p> <p>Linda Godwin</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod a bod yr holl gofnodion yn cynnwys gwybodaeth i adnabod y cleifion.</p>	<p>Rheoliadau 23 (2)(b) a (3) (a)</p> <p>Safon 20.</p> <p>Rheoli cofnodion</p>	<p>Mae system storio ddiogel bellach ar waith ar gyfer yr holl Gardiau Rhagnodi Cleifion.</p>	<p>Linda Godwin</p>	<p>Cwblhawyd</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei bolisi cwynion i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.</p>	<p>Rheoliad 24 (4) (a)</p> <p>Safon 23</p> <p>Ymdrin â chwynion a rheoli</p>	<p>Mae'r polisi cwynion bellach yn cynnwys manylion ar gyfer AGIC.</p>	<p>Linda Godwin</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	digwyddiadau			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Marie Swoboda

Swydd: Rheolwr y clinig

Dyddiad:25.4.18